Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Carwê
# Ysgol Gynradd Carwê
# Cydweli
# Sir Gaerfyrddin
# SA17 4HE

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 21, 22 2011**

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y ysgol a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch meithrin Carwê yn Ysgol Gynradd Gymraeg Carwê. Agorodd y lleoliad dros ddau ddeg pum mlynedd yn ôl. Mae'r lleoliad yn cyfarfod pum bore'r wythnos yn ystod amser tymor rhwng 8.50 a 11.20.

Mae yno ystafell fawr ac adnoddau da gan gynnwys ardal eang y tu allan ac mae'r lleoliad hefyd yn cael defnyddio cyfleusterau'r ysgol fel yr ardd a'r glaswellt. Ceir mynediad drwy'r ysgol i'r ystafell. Er mwyn sicrhau diogelwch y plant mae angen cod arbennig i gael mynediad i'r ysgol. Tu allan, mae ardal fyrddau lle ceir nifer o weithgareddau diddorol gan gynnwys dŵr a thywod a gardd, gyda ffens o'i chwmpas sy'n ei gwneud yn le diogel, lle gall y plant dyfu llysiau. Mae mynediad i dir yr ysgol drwy glwyd sydd yn cael ei folltio.

Daw'r plant sy'n mynychu'r lleoliad o bentref Carwê. Cydnabyddir yr ardal fel un sydd yn ddifreintiedig ac o'r herwydd mae'r lleoliad yn cael ei ariannu gan Dechrau'n Deg. Ni ddaw un plentyn o aelwyd Gymraeg. Caiff y cylch ei gofrestru gan Fudiad Ysgolion Meithrin.

Ar hyn o bryd mae dau ddisgybl wedi'u nodi ag anghenion addysg ychwanegol (AAY). Mae croeso i ddisgyblion ethnig ac maent oll yn siarad Saesneg. Mae'r plant yn trosglwyddo i'r ysgol ar ddechrau'r tymor wedi eu pen-blwydd yn dair oed. Mae 14 o blant ar y gofrestr a chaiff tri phlentyn eu hariannu. Cafodd y lleoliad ei harolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2008 gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Y mae'r lleoliad wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989. Mae gan y lleoliad gorff llywodraethol. Cyflogwyd pedair o ymarferwyr a chanddynt i gyd gymwysterau addysg blynyddoedd cynnar.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r perfformiad cyfredol yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae ethos cynwysedig a hapus sydd â'r plentyn yn y canol;
- mae'r plant yn gwneud cynnydd da;
- mae'r addysgu'n gyson dda;
- mae'r ddarpariaeth wedi ei seilio yn nealltwriaeth o ddatblygiad plentyn;
- caiff y plant amrywiaeth o brofiadau dysgu cyffrous uniongyrchol sydd yn ymateb yn dda i'w anghenion, ac
- mae'r asesu'n dda ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gynllunio'r camau nesaf.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon y darparwr yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae diwylliant o adlewyrchu proffesiynol yn datblygu sydd wedi'i seilio ar hunan-arfarniad;
- safon dda'r arweinyddiaeth;
- mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar y plentyn a'i hanghenion unigol, ac
- ymrwymiad y staff i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y ddarpariaeth a’r cyraeddiadau yma dylai’r ymarferwyr:

A1 barhau i wella safonau Cymraeg y plant, a

A2 ddatblygu ymhellach eu defnydd o gwestiynau pen agored.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn cynhyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y caiff yr argymhellion yma eu cyflawni.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg na lles am nad oes digon o blant o dair blwydd oed i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Rhydd yr ymarferwyr gyfleoedd da i'r plant i ddatblygu'n ddysgwr brwdfrydig, hyderus ac annibynnol ac i ddatblygu medrau creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol da. Datblyga'r ymarferwyr sgiliau technegol y plant pan roddant iddynt gyfleoedd i ddefnyddio'r cyfrifiadur gyda chymorth. Dengys y plant cryn dipyn o ddiddordeb yn y byd o'u cwmpas a datblygant ddealltwriaeth ragorol trwy ei archwilio a thyfu blodau a llysiau.  Mwynhânt gyfleoedd cyson i ddatblygu eu sgiliau corfforol a chreadigol tu fewn a thu allan trwy ddawns a thrwy ddefnyddio'r cyfarpar tu allan. Mwynha'r plant ddosbarthu papur a phlastig ar gyfer ail gylchu a mynd â bwyd gwastraff i'r man gwneud gwrtaith a deallant yn dda pam y maent yn gwneud hyn.

Mae'r broses o gynllunio yn dechrau pan fydd ymarferwyr yn trafod darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos a aeth heibio. Gwerthusant gyraeddiadau ac anghenion pob plentyn unigol ac ystyrir hefyd yr asesiadau a wneir. Defnyddiant yn dda'r holl wybodaeth hon i fwydo'r cylch nesaf o ddarpariaeth. Ymateba'r cynllunio yn dda i ddiddordebau ac anghenion y plant a chynllunnir ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a gweithredol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Nodwedd ragorol yw'r ystod eang o brofiadau dysgu a ddarperir iddynt yn y gymuned ac ymhellach i ffwrdd, er enghraifft, ymweld â Ffos Las a bwyty Tseiniaidd yn Llanelli. Cyfranna'r rhain yn arbennig o dda tuag at eu gwybodaeth a'u datblygiad cymdeithasol. Adeilada'r oedolion ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda ac mewn ffordd sydd yn ystyrlon iddynt. O ganlyniad i'r nodweddion yma, mae'r cynllunio yn dda.

Drwy ymwneud â'u profiadau dysgu ysgogol a chydweithio o fewn cymuned ddysgu clos y lleoliad, caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu perthynas gadarn gydag eraill ac i ddangos parch a goddefgarwch at bawb gan gynnwys pobl o gefndiroedd diwylliannol eraill.

Caiff y plant fodel dda o'r iaith Gymraeg a chânt eu hannog gan yr ymarferwyr i ymestyn eu hiaith a datblygu eu diddordeb trwy adrodd rhigymau, caneuon a straeon sydd yn cynnwys patrymau iaith cyson. Mae Cymraeg y plant yn datblygu'n raddol a deallant fyw nag y siaradant. Er bod y plant yn siarad Saesneg yn unig yn y cartref

gwnânt gynnydd priodol yn ei hiaith o'u man cychwyn. Dathlant y diwylliant Cymreig mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Medda'r ymarferwyr ar wybodaeth dda o ddatblygiad plentyn a datblygiadau cyfoes yn y maes ac fe rydd hwn sail dda a chyfeiriad i'r ddarpariaeth. Deallant ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Rheolir ymddygiad mewn ffordd sensitif a chadarnhaol ac o ganlyniad fe ddysga'r plant i ddangos caredigrwydd tuag at eraill, beth sydd yn dderbyniol o ran ymddygiad a pha bethau sydd yn annerbyniol.

Mae'r defnydd o gwestiynau pen agored yn danddatblygedig ac o'r herwydd caiff sgiliau meddwl a datrys problemau'r plant eu cyfyngu i raddau. Bodlona hyblygrwydd yr addysgu anghenion unigol y plant yn dda. Mae hyblygrwydd y trefniant yn sicrhau cyfleoedd da i'r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu a hyrwydda'n dda eu hannibyniaeth a hunan hyder.

Rhydd yr ymarferwyr ddigon o amser i'r plant i ymgolli yn eu profiadau dysgu ac nid ydynt yn ymyrryd oni bai bod cyfle i ymestyn y dysgu. Ni chaiff y dysgu ei orgyfeirio ac o ganlyniad gwnaiff pob plentyn gynnydd da yn ôl ei gyfnod datblygu.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda iawn. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol a thrafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Bwydir y wybodaeth a gasglwyd i mewn i'r cylch nesaf o gynllunio; gwelir effaith y wybodaeth hon yn y ddarpariaeth dda. Cedwir cofnodion parhaus o gyraeddiadau'r plant a chynhwysa'r rhain wybodaeth ddefnyddiol a thrylwyr sydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad pob plentyn. Mesurant gynnydd y plant yn gyson ymhob maes dysgu a defnyddiant y wybodaeth hon i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Derbynia'r rhieni adroddiad cynhwysfawr pan adawant i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr wedi creu awyrgylch deuluol yn y lleoliad lle teimla'r plant yn gyfforddus a hapus iawn. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi a dangosir parch tuag at ei syniadau a'u ddiddordebau.

Datblygant yn dda ymwybyddiaeth y plant o'r pwysigrwydd o fwyta'n iach ac o gadw'n heini. Caiff chwilfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu'n dda. Dysgant am eu credoau eu hunain ac eraill drwy ddathlu'r Pasg, y flwyddyn newydd Tsieineaidd, dilyn themâu ar wledydd eraill gan gynnwys yr Eidal a'r Iwerddon a hefyd trwy straeon. Datblygant synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas drwy gasglu penbyliaid, gofalu amdanynt ac arsylwi arnynt dra'u bônt yn datblygu'n frogaod.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin yn dda iawn y gwerthoedd a'r moesau hynny y credant eu bod yn angenrheidiol i ddatblygiad cyflawn y plentyn cyfrifol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd ac maent yn gwybod yn dda beth yw'r gwahaniaeth rhwng da a drwg yng nghyd-destun eu bywydau ifanc. Mae'r

ddarpariaeth yn galluogi'r plant i gymdeithasu, cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth dda iawn o fyw a rhannu yn eu cymuned fach. Caiff y plant gyfleoedd i wneud penderfyniadau a mwynhânt bob profiad a gynigir iddynt.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng y lleoliad, yr ysgol ac asiantaethau allanol yn dda. Elwa'r plant yn fawr iawn ar y berthynas fuddiol gyda'r athrawes ymgynghorol, tîm Cyfnod Sylfaen yr awdurdod, swyddog Dechrau'n Deg a swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin. Nodwedd dda iawn yw'r cysylltiad agos gyda'r ymwelydd iechyd sydd yn ymweld â'r cylch pob wythnos a cheir perthynas clos a buddiol hefyd gyda'r arbenigwr llefaredd a'r athrawes ymgynghorol ADY. Sicrha'r berthynas glos iawn rhwng yr ysgol a'r lleoliad drosglwyddiad arbennig o lwyddiannus i'r plant wrth iddynt ddechrau yn y dosbarth meithrin. Mae pennaeth yr ysgol yn mynd i weld y plant a siarad gyda nhw bron bob dydd a daw'r plant i'w hadnabod yn dda drwy'r nifer fawr o ymweliadau a wnânt i'r ysgol; mae hon yn nodwedd dda.

Mae'r berthynas rhwng y rhieni a'r lleoliad yn dda iawn. Dywedodd detholiad o rieni eu bod yn fodlon iawn ar bob agwedd o ddarpariaeth y lleoliad. Soniant am eu bodlonrwydd gydag annibyniaeth neilltuol eu plant a dywedant fod y staff yn adnabod eu plant yn dda. Teimlant fod eu plant yn derbyn gofal da iawn a'u bod hwythau'n gallu mynd at yr arweinyddion ag unrhyw fater. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant a gwyddant yn dda'r gweithdrefnau i'w dilyn. Mae'r gweithdrefnau angenrheidiol yn weithredol ac adlewyrchant Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY yn dda a chaiff pob plentyn fynediad i bob maes dysgu a'r holl brofiadau dysgu cyfoethog a ddarperir. Mae safon y cynllunio a'r gwerthuso ar gyfer y plant yma'n dda. Cânt gynllun chwarae unigol sydd yn gynhwysfawr, sy'n cwrdd ag anghenion unigryw'r plant ac sydd yn cael ei fonitro'n gyson. Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'r asiantaethau perthnasol a gweithredant yn dda'r cyngor a gânt ganddynt. Caiff y plant eu hintegreiddio mewn ffordd ganmoladwy.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes a chadarnhaol yn bodoli yn y lleoliad. Dengys yr oedolion hoffter a charedigrwydd mawr tuag at bob un a chaiff pob plentyn ei werthfawrogi. Adnabyddai'r ymarferwyr y plant a'u hanghenion a'u diddordebau yn dda ac ymatebant i'r rhain gan ddefnyddio eu gwybodaeth ragorol o gefndiroedd y plant. Caiff pob plentyn fynediad cyfartal i bob agwedd o'r cwricwlwm. O ganlyniad i'r hoffter a pharch at y plentyn a'r safonau moesol a ddangosir gan y staff, datblyga'r plant oddefgarwch, agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu ac ymddygiad da.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cadarnhaol iawn i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol iawn. Cofrestrir y cylch gan yr AGGCC ac ymatebodd eisoes i'r ychydig iawn o fân argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad diwethaf. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn dda a medda'r staff ar gymwysterau da a thipyn o brofiad. Maent yn mynd i'r afael â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn dda a derbynia'r plant brofiadau heriol a difyr sydd yn ymateb yn dda i'w diddordebau. Mae'r ystafell yn eang ac yn ddelfrydol i gefnogi'r ddarpariaeth fel y mae'r ardaloedd arbennig o dda y tu allan. Cânt ddigon o le i chwarae rôl, pori drwy lyfrau, mwynhau paentio a thynnu lluniau, chwarae gyda blociau a mwynhânt ystod eang o brofiadau dysgu tu allan ymhob tywydd, yn yr ardal dan do os bydd hi'n bwrw glaw. Dangosa pob plentyn gonsyrn a charedigrwydd tuag at ei gymheiriaid, yr oedolion ac ymwelwyr.

Derbynia'r plant ddigon o amser i ymrwymo'n llawn gyda phethau sydd o ddiddordeb iddynt gan gynnwys profiadau helaeth y tu allan sydd yn hyrwyddo'u sgiliau creadigol, corfforol, mathemategol a datrys problemau ac sydd yn datblygu eu gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau yn dda. Mae defnydd y lleoliad o'i gymuned yn rhagorol a chaiff y plant ymweld â'r capel, y deintydd, y swyddfa bost i anfon llythyr ac i brynu nwyddau ac ymwelant â neuadd y gymuned i wneud hetiau Pasg gyda'r henoed . Daw nifer o ymwelwyr i'r cylch i roi profiadau cyfoethog i'r plant gan gynnwys drymiwr Affricanaidd a ffermwr sydd yn dod a chwningod, draenogod ac ŵyn i'r plant eu gweld ac fe ychwanega'r rhain yn dda iawn at ei dysgu. Mae'r berthynas glos iawn gyda'r ysgol hefyd yn ehangu a chyfoethogi eu profiadau dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Y plentyn a'i anghenion a diddordebau unigryw sydd wrth ganol y ddarpariaeth a llwydda'r arweinyddion greu ethos cadarnhaol a hapus iawn.

Mae'r arweinyddion yn rhoi cyfarwyddyd clir i'r lleoliad. Cydweithiant yn dda a rhannant egwyddorion ac amcanion clir sydd wedi ei seilio ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn. Gwelir y rhain yn cael ei gweithredu trwy'r profiadau dysgu uniongyrchol a diddorol a gaiff y plant a'r system trefniant sydd yn caniatáu'r plant i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, i fagu hunan hyder ac annibyniaeth ac i wneud cynnydd da.

Cyflawna pawb eu cyfrifoldebau'n effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er lles y plant. Cyfranna'r ddwy tuag at gynllunio strategol y lleoliad. Rhanna'r arweinyddion y gwerthoedd y maent am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol a thrafodaeth gyson. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'r plant yn ogystal â thargedau sydd yn sicrhau darpariaeth dda a safonau uchel o gyflawniad. Caiff cynnydd tuag at eu cyflawni ei fonitro'n gyson.

Mae'r cynllun datblygu a gwella lleoliad sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau hunan arfarnu'r lleoliad yn rhoi cyfeiriad clir i fywyd a gwaith y cylch.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymwybodol iawn o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad ac yn gefnogol iawn o'r cylch a deallant a chyflawnant eu rolau'n gydwybodol. Gwyddant yn dda am berfformiad y cylch a cheir trafodaethau anffurfiol yn rheolaidd rhwng y

Person Cofrestredig a'r arweinyddion. Defnyddia'r pwyllgor wybodaeth drylwyr i wneud penderfyniadau effeithiol a chyflawnant eu dyletswyddau cyfreithiol.

Daw aelodau o'r pwyllgor rheoli i arsylwi ar sesiynau ac ysgrifennant adroddiadau cryno sydd yn canmol y croeso, cyraeddiadau'r plant a'u hannibyniaeth. Gwyddant yn dda am holl weithgareddau'r cylch .

Mae'r arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r Awdurdod Lleol.

**Gwella ansawdd: Da**

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'u hunan arfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn arwain at adnabod pethau i'w gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Ymgynghora'r arweinyddion â rhieni, gofalwyr a'r plant i fwydo'r hunan arfarnu. Defnyddiant y wybodaeth a dderbynnir oddi wrth holiaduron i rieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu.

Cydweithiant yn effeithiol iawn gydag ymgynghorwraig Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol fel ffrind beirniadol i ddefnyddio'r wybodaeth hunan-arfarnu er mwyn cynhyrchu'r cynllun datblygu a gweithredant hefyd yn effeithiol ar argymhellion yr AGGCC a chyngor y swyddog Dechrau'n Deg.

Yn sgil y broses o hunan arfarnu, cynhyrchwyd cynllun gwella lleoliad sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o berfformiad y lleoliad ac sydd yn canolbwyntio ar godi safonau trwy wella'r ddarpariaeth a gosod targedau. Mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda.

Mae system effeithiol o werthuso yn ei le a chaiff yr ymarferwyr gyfleoedd i adlewyrchu ar eu perfformiad a nodi'r meysydd y maent am eu datblygu drwy hyfforddiant er mwyn gwella ar y ddarpariaeth. Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant mewn-swydd yn gyson. Gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu'r hyn a ddysgant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Gweithia'r arweinyddes yn effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol sydd yn monitro darpariaeth y cylch yn rheolaidd. Cydweithia'n dda hefyd gyda swyddogion Dechrau'n Deg a Mudiad Ysgolion Meithrin sydd yn gefnogol iawn o'r cylch. Mae'r partneriaethau yma yn llwyddiannus iawn ac elwa'r cylch yn fawr arnynt.

Gweithia'r staff yn agos iawn gyda'r rhanddeiliaid ac y maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau gan y rhieni a'r gwarchodwyr.

Mae'r bartneriaeth rhwng y cylch a'r ysgol yn ffrwythlon iawn. Mae'r plant yn defnyddio adnoddau'r ysgol, er enghraifft y cyfarpar tu allan ac yn rhannu dathliadau arbennig megis diwrnod llyfrau byd eang, mabolgampau a'r eisteddfod a bwytânt ginio yn yr ysgol pob diwrnod. Daw'r athrawes derbyn a disgyblion blwyddyn chwech

i ddarllen straeon i'r plant ac elwa'r cylch yn fawr ar y bartneriaeth hon; mae hon yn nodwedd ragorol.

Mae'r bartneriaeth agos rhwng y pwyllgor rheoli a'r cylch yn fuddiol iawn a daw rhai aelodau i siarad gyda'r plant yn rheolaidd. Maent yn gefnogol iawn i holl fywyd y feithrinfa ac elwa'r plant a'r ymarferwyr ar y berthynas hon.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Lleolir ymarferwyr yn dda er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u harbenigedd a  sicrhau'r ddarpariaeth orau. Defnyddiant yr adnoddau y tu fewn a thu allan yn dda er mwyn darparu profiadau cyffrous i'r plant ac ehangu eu gorwelion. Mesurant effaith yr adnoddau ar y dysgu a'r addysgu a chynlluniant ar gyfer sicrhau cyflenwad da o adnoddau yn y dyfodol. Defnyddiant yr awyr agored yn dda iawn i ddatblygu medrau'r plant ymhob maes dysgu.

Gwna'r arweinwyr y defnydd gorau bosib o adnoddau'r lleoliad ac o'r cyllid i gynnig y ddarpariaeth orau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd tri holiadur. Roeddynt i gyd yn gadarnhaol ac roedd pod rhiant/gwarchodwr yn fodlon neu yn fodlon iawn gyda phob agwedd o fywyd eu plant yn y cylch.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Roedd pob plentyn yn gyfforddus wrth siarad gydag ymwelydd a dywedant eu bônt yn hapus iawn yn y cylch. Soniant am eu ffrindiau a dywedant eu bod yn gwybod beth i'w wneud petaent yn anhapus neu yn gofidio am rywbeth.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu / yr arolygydd cofnodol – dileer fel y bo'n briodol**

| | |
|---|---|
| [Enw] | Branwen Llewelyn Jones |
| [Enw] Dileer fel y bo'n briodol | Arolygydd Tîm |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)